

Agenda



Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad: Dydd Llun, 26 Ebrill 2021

Amser: Time Not Specified

Lleoliad:

At: Cynghorwyr:

Eitem

Wardiau Dan Sylw

1 Question to the Cabinet Member for City Services- Ganolfan Ailgyrchu
Cynghorydd R Mogford:

Ers i'r Ganolfan Ailgyrchu fabwysiadu'r system apwyntiadau, adroddwyd bod dros 80,000 o ymweliadau wedi'u harchebu'n llwyddiannus a bod llawer o fanteision wedi bod o weithio.

i) Pan fydd y ganolfan ailgyrchu yn dychwelyd i'r normal newydd (cyfyngiadau symud ar ôl COVID-19), sut olwg fydd ar y normal newydd o safbwynt preswlydd?

ii) I roi'r 80,000 o ymweliadau a gofnodwyd mewn persbectif beth yw'r capasiti gweithredu mwyaf a gorau posibl o ran ymweliadau y gellir eu cefnogi mewn cyfnod tebyg neu bob wythnos?

iii) A oes gan yr aelod cabinet unrhyw ddata ar fynediad cyfyngedig i'r ganolfan ailgyrchu a mwy o dipio anghyfreithlon yng Nghasnewydd.

Y Cynghorydd Roger Jeavons (Dirprwy Arweinydd):

Ar gyfer y cyfnod ers ailagor ar 26 Mai 2020 i 31 Mawrth 2021, gwnaed 90,238 o archebion ar gyfer CAGC drwy'r system archebu.

- Mae'r system yn rhoi ffordd ddiogel i weithwyr safleoedd reoli llif preswylwyr a monitro'r defnydd o sgipiau, gan wella effeithlonrwydd safleoedd i gefnogi cyfradd ailgyrchu gynyddol o 65% i dros 90%
- Mae'r system wedi dileu ciwiau ar yr A48 SDR a materion rheoli traffig cysylltiedig
- Mae'r system hefyd wedi hwyluso gwelliannau i reoli mynediad heb awdurdod i'r safle

i) Mae systemau archebu bellach wedi'u cyflwyno ym mhob

Person cyswllt: ,

Ffôn:

E-bost: Cabinet@newport.gov.uk

Dyddiad cyhoeddi: Date Not Specified

awdurdod cyfagos ac ar draws y rhan fwyaf o'r wlad. O ystyried llwyddiant y system a'r ymateb cadarnhaol iawn gan y cyhoedd, rhagwelir y bydd yn parhau yn ei le hyd y gellir rhagweld. Bydd y normal newydd yn addasu yn unol â newidiadau i ganllawiau Covid, wrth i'r rhain esblygu dros amser.

ii) Mae uchafswm capasiti'r safle yn dibynnu ar y rheoliadau ymbellhau cymdeithasol sydd ar waith. Fodd bynnag, mae arbedion effeithlonrwydd o'r system newydd wedi galluogi oriau agor hwy ac felly cynnydd yn nifer yr ymwelwyr

iii) Nid yw mynediad i'r ganolfan ailgylchu wedi bod yn gyfyngedig, ond mae'n cael ei reoli drwy system archebu, sydd wedi arwain at lawer o ganlyniadau cadarnhaol fel y nodwyd uchod. Mae tipio anghyfreithlon yn weithgaredd troseddol na fyddai'r mwyafrif helaeth o'n trigolion yn ei dderbyn. Mae'r rhan fwyaf o dipio anghyfreithlon yn cael ei wneud gan weithredwyr masnachol, na allant ddefnyddio'r CAGC a rhaid iddynt waredu eu gwastraff yn unol â deddfwriaeth berthnasol.